

Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Cyfnod Sylfaen

Gweithgaredd 7: Sut allwn ni hysbysebu?

Amcan dysgu

Galluogi'r disgyblion i greu hysbyseb am eu cynnyrch neu wasanaeth.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Creadigedd

- Meddwl Dargyfeiriol – creu syniadau
- Arloesi

Cysylltiadau

- Cyfathrebu
- Gweithio gyda Phobl Eraill

Gweithgareddau dysgu

Gan ddefnyddio samplau o hysbysebion o gylchgronau, teledu, y rhyngwrwyd ac ati mae'r athro yn eu darparu, gofynnwch i'r disgyblion beth yn eu barn nhw ydy pwrpas hysbysebu.

Mae'r disgyblion yn edrych ar amrediad o hysbysebion. Gofynnwch y cwestiynau canlynol;

- “Beth mae'r hysbyseb yma'n ei ddweud wrthyn ni?” • “P'un ydy'r hysbyseb gorau?”
- “Pam dyma'r un gorau?”

Dylai hysbysebion ddal sylw pobl ar unwaith. Mae lliw, dyluniad a lluniau yn cael eu defnyddio i berswadio pobl i brynu'r cynnyrch/gwasanaeth. Hefyd mae'n bosibl y bydd gan hysbysebion teledu/radio effeithiau sain, cerddoriaeth, a hyd yn oed rhigwm.

Gofynnwch i'r disgyblion benderfynu beth ddylai hysbyseb da ei gynnwys e.e.

- Enw'r 'cwmni'/ prosiect menter
- Enw'r cynnyrch/gwasanaeth
- Gwybodaeth am y cynnyrch/gwasanaeth
- Beth sy'n gwneud y cynnyrch/gwasanaeth yn arbennig?
- Gwybodaeth am sut a ble mae pobl yn gallu prynu'r cynnyrch yma

Yn unigol neu mewn grwpiau, mae'r disgyblion yn creu posteri syml neu drawiadol ar gyfer eu cynnyrch/ gwasanaeth. Cyfle am asesiad gan gymheiriaid.

Trafodwch ble orau i arddangos y posteri fel y bydd y nifer uchaf o bobl yn gwybod am eu cynnyrch/gwasanaeth.

Gweithgaredd 7: Sut allwn ni hysbysebu?

Cyfnod Sylfaen

Canlyniad dysgu

Bydd y disgyblion yn creu amrediad o syniadau syml ac yn dechrau mynegi safbwyntiau.

Adnoddau mae eu hangen

- Amrywiaeth o hysbysebion o gylchgronau
- Deunyddiau celf
- TGCh

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

1. Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant

Datblygiad Creadigol

- Cymysgu, siapio, trefnu a chyfuno deunyddiau i greu eu delweddau eu hunain sy'n cyfathrebu a mynegi eu syniadau'n greadigol.

2. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm

Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau;

- Gwranddo;
- Cydweithredu a thrafod.

Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm

- Trefnu syniadau a gwybodaeth;
- Ysgrifennu'n gywir.

